Mumbles Community Council

# Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2024 am 6.30pm Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Phil Keeton (Is-Gadeirydd), a Helen Nelson

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Y Clerc, Lydia Graham – Swyddog Amgylcheddol, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

Dechreuodd y cyfarfod am 6.39pm, pan ymunodd y Cynghorydd Helen Nelson; nid oedd cworwm yn y cyfarfod cyn hynny.

**EN2406-01** **Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Sara Keeton

**EN2406-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**EN2406-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2024 yn gofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 Mai 2024 fel rhai cywir.

**EN2406-04** **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol**
Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Cafwyd trafodaethau ar nifer o gamau gweithredu newydd sydd heb eu cwblhau, a chamau gweithredu newydd arfaethedig.
Yn ystod y trafodaethau hyn, gadawodd y Cynghorydd Helen Nelson y cyfarfod am 6.58pm, gan ddychwelyd am 7pm. Yn ystod y cyfnod hwn, gohiriwyd y cyfarfod gan nad oedd cworwm.

**PENDERFYNWYD:** Camau gweithredu heb eu cwblhau wedi'u diweddaru a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu sydd newydd eu creu a'u diweddaru.

**EN2406-05**

**Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30/4/2024 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, eisoes wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor, ac nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud ag adroddiadau cyllideb wedi'u darparu i'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau na'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod.
Cyfeiriodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau at gynllun newydd yr adroddiadau, a ddyfeisiwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol i wneud yr adroddiadau yn haws i aelodau'r pwyllgor eu deall.
Tynnodd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, sylw at yr angen i unrhyw danwario ar gyllidebau pwyllgorau gael ei ddefnyddio, ac y bydd opsiynau ar sut i wario cyllidebau yn cael eu trafod yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf, pan fydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn bresennol.

Nododd y Cynghorydd Townsend Jones hefyd y bydd ceisiadau grant mewn perthynas â Choed y Castell a Llwybrau Nant y Golchdy yn cael eu hystyried ym mis Gorffennaf gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac y bydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn aros am ganlyniad y cais hwnnw cyn dyrannu unrhyw gyllid.
Dywedodd y Cynghorydd Helen Nelson wrth y pwyllgor fod y bwriad i leoli gasebo yng Ngerddi Clun yn cael ei ystyried gan Adran Gynllunio Cyngor Dinas a Sir Abertawe.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau yn y cyfarfod mewn perthynas â'r adroddiadau ariannol, ond nododd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, fod yr adroddiadau cyllidebu 'cod lliw' newydd a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn welliant mawr, gan eu bod yn symlach, yn gyflymach ac yn haws eu deall. Cytunodd yr holl gynghorwyr a oedd yn bresennol.
Gadawodd y Cynghorydd Helen Nelson y cyfarfod am 7.04pm, gan ddychwelyd am 7.08pm, ac yn ystod y cyfnod hwn gohiriwyd y cyfarfod gan nad oedd cworwm.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30 Ebrill 2024.

**EN2406-06**

**Cyllideb Gerddi Jiwbilî**

Dywedodd Lydia Graham fod gwerthusiad wedi'i dendro, ond roedd adroddiad ecolegol yn rhy ddrud ac nid oes neb ar gael i wneud y gwaith eleni. Yn lle hynny, byddwn yn cynnal "bioflits" gyda gwirfoddolwyr i asesu bioamrywiaeth ac ecoleg yr ardal ar 4 Gorffennaf, cyn clirio.

**EN2406-07**

**Su'r Mwmbwls yn ei Blodau**

Dywedodd Lydia Graham fod y nifer a gymerodd ran yn y gystadleuaeth wedi bod yn siomedig ac amlinellodd ei hymdrechion i annog mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd trwy gyhoeddusrwydd, gan gynnwys arddangos baneri a defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Yn flaenorol, gweithredwyd Lydia i hyrwyddo'r digwyddiad a chafwyd trafodaeth rhwng cynghorwyr ar y ffordd orau o sicrhau mwy o gyfranogiad.

Ystyriwyd y defnydd o bosteri mewn ysgolion lleol ynghyd â gwybodaeth yn cael ei chynnwys mewn cylchlythyrau ysgolion. Trafodwyd gwobrau ac awgrymwyd rhoi cwpan i'r enillydd cyffredinol.

Rhewodd sgrin y Cynghorydd Helen Nelson rhwng 7.27pm a 7.28pm ac yn ystod y cyfnod hwn gohiriwyd y cyfarfod gan nad oedd cworwm.

**CAM GWEITHREDU:** Lydia i anfon e-bost at Claire Anderson, y Swyddog Digwyddiadau, gyda golwg ar ddosbarthu posteri i ysgolion a chais i gylchlythyrau ysgolion gynnwys yr eitem hon ar yr agenda.

**ARGYMHELLIAD:** bod tocynnau rhodd gwerth £30 ar gyfer Cash Hardware Stores yn cael eu rhoi i bob un o enillwyr y chwe chategori ynghyd â thystysgrif, a bod cwpan neu darian yn cael ei rhoi i'r enillydd cyffredinol gyda'r cwpan/tarian yn cael ei hysgythru gydag enw'r enillydd. I'w chyflwyno yn flynyddol.

Cyllid (£180 ynghyd â chost tystysgrifau a tharian/cwpan) i'w ddarparu drwy gyllideb Su'r Mwmbwls yn ei Blodau a'i gymeradwyo gan y clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Cod y gyllideb – ENV26

Mumbles Community Council

**Cynllun Gweithredu Naid Fawr yr Hinsawdd**

EN2406-08 Amlinellodd Lydia sut yr oedd Mr Sonny Khan, rheolwr y prosiect yng Nghanolfan Amgylcheddol Abertawe, wedi rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod y cyngor llawn ym mis Mehefin. Eglurodd Mr Khan fod nifer o haenau yn y broses o ddadansoddi effaith gweithredoedd y cyngor, ac mai'r man cychwyn oedd ystyried gwariant y cyngor. O'r asesiadau cychwynnol hyn, byddai mannau problemus yn cael eu nodi. Dywedodd Lydia fod nifer o fanteision o ran cyfraniad Mr Khan, gan gynnwys amlygu arfer da a bwrw ymlaen ag ymrwymiad Cyngor Cymuned y Mwmbwls i'r argyfwng hinsawdd.

**Hyrwyddo diwrnodau gwirfoddolwyr**

EN2406-09 Amlinellodd Lydia yr anawsterau wrth recriwtio gwirfoddolwyr i gynorthwyo Cyngor Cymuned y Mwmbwls gyda diwrnodau gwirfoddolwyr.
Cafwyd trafodaeth ar opsiynau i wella niferoedd y gwirfoddolwyr, gan gynnwys mwy o ddefnydd o blant ysgol trwy ysgolion. Awgrymwyd hefyd sesiynau gwirfoddoli i rieni a phlant yn ystod cyfnod yr haf.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Townsend Jones i fynd i'r afael â phryderon yn ei hadroddiad cadeirydd misol i'r cyngor llawn.

**Arwyr Gwyrdd y Mwmbwls yr Haf**

EN2406-10 Manylodd Lydia ar sut y bydd Gareth Richard o Gymdeithas Morloi Gŵyr yn siaradwr allweddol y cyfarfod nesaf, a gynhelir yn Hwb Underhill, Parc Underhill, 24 Gorffennaf 2024, rhwng 5.50pm a 7.30pm. Bydd Gareth yn darparu rhai ffeithiau cyfareddol am forloi llwydion i uchafswm o 50 o bobl. Gall rhai o sleidiau Gareth fod yn anaddas ar gyfer plant iau gan fod morloi yn cael eu dangos mewn sefyllfaoedd trallodus, gan gynnwys yn cael eu dal mewn gwrthrychau plastig fel ffrisbis.

Er bod gan Lydia nifer o siaradwyr wedi paratoi ar gyfer y dyfodol, cafwyd trafodaeth ar siaradwyr addas eraill. Unrhyw awgrymiadau i'w hanfon mewn neges e-bost at Lydia.

**Swyddog Amgylcheddol – adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**

Mumbles Community Council

EN2406-11

Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a’r camau nesaf ar gyfer mis Mehefin.

Roedd Lydia Graham, Swyddog yr Amgylchedd, eisoes wedi trefnu bod adroddiad mis Mehefin yn cael ei ddosbarthu i holl aelodau'r pwyllgor.
Roedd Lydia wedi rhoi diweddariad ar y rhan fwyaf o agweddau ar ei hadroddiad mewn eitemau cynharach ar yr agenda. Roedd eitemau ychwanegol yn cynnwys:-

- Mynd ar drywydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe eto mewn perthynas â chynwysyddion gwastraff.
- Bydd angen aildrefnu’r diwrnod codi sbwriel nesaf a drefnwyd ar gyfer 7 Gorffennaf 2024 i 27 Gorffennaf 2024 oherwydd bod y dyddiad gwreiddiol yn gwrthdaro â Sioe Awyr Cymru yn Abertawe.
- Lydia i gwrdd ag Ashley, y gofalwr tir newydd, yn y dyfodol agos i gwblhau syniadau ar gyfer Gerddi Jiwbilî.

**Cynllun Gweithredu Amgylcheddol 2024/25**

EN2406-12

Nododd y Cynghorydd Townsend Jones fod angen i aelodau'r pwyllgor ystyried prosiectau addas o ran gwariant. Dylai'r rhain fod o dan y pennawd cyllideb priodol a fydd yn rhan o'r cynllun gweithredu, a fydd yn ei dro yn cael ei asesu ym mhob cyfarfod misol. Bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf, pan fydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn bresennol, a bydd gwariant arfaethedig yn cael blaenoriaeth wrth amserlennu’r agenda.

**Gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls – SA1**

EN2406-13

Dywedodd Lydia fod ffurflen adborth wedi'i mewnosod ar Teams gyda'r bwriad o wneud argymhellion addas mewn perthynas ag SA1, gyda holl aelodau'r pwyllgor i ymgyfarwyddo â'r ddogfen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Phil Keeton at negeseuon cyfryngau cymdeithasol ac SA1. Cadarnhaodd y clerc fod yr agwedd hon eisoes ar y gweill drwy ymholiad gan y Pwyllgor Diwylliant.
Gwnaeth y Cynghorydd Townsend Jones sylw ar y diffyg posteri/baneri dwyieithog ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls yn ddiweddar, ac, eto, dywedodd y clerc, er bod y perfformiadau Cymraeg eu hiaith wedi bod yn llwyddiannus iawn, roedd materion yn ymwneud â hysbysebu dwyieithog yn cael sylw.

Mumbles Community Council

**Diweddariad ar ailgylchu, gan gynnwys pennu dyddiad ar gyfer ymweliad safle**

**EN2406-14** Cafwyd trafodaeth ar y ffordd orau o fwrw ymlaen ag ymweliad safle â gwaith ailgylchu. Consensws cyffredinol y pwyllgor oedd ymgorffori ymweliad safle fel rhan o ddigwyddiad Arwyr Gwyrdd. Ni chrëwyd unrhyw gam gweithredu ychwanegol ond bydd ymweliad yn cael ei drefnu yn y dyfodol, o bosibl ym mis Medi, fel rhan o gam gweithredu parhaus.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.59pm**

**Cyfarfod nesaf 22 Gorffennaf 2024**

# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 25 June 2024 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present** Carrie Townsend Jones (Chair), Phil Keeton (Vice Chair), and Helen Nelson

**Officers Present:** Kerry Grabham – The Clerk, Lydia Graham – Environmental Officer and Ian Hughes – CSO.

The meeting commenced at 6.39pm upon Cllr Helen Nelson joining, the meeting not being quorate prior to that stage.

**EN2406-01** **Apologies:** Cllr. Sara Keeton

**EN2406-02** **Declarations of Interest:** None

**EN2406-03** **Minutes of the previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 21st May 2024 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meetings held on 21st May 2024 as a true record.

**EN2406-04** **Actions from previous meetings update**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members. Discussions took place on a number of outstanding and proposed new actions.
During these discussions Cllr Helen Nelson left the meeting at 6.58pm returning at 7pm, during this period the meeting was suspended as it was not quorate.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created and updated actions.

Mumbles Community Council

**EN2406-05** **Budget Monitoring Report to 30/04/2024 - Paul Beynon, RFO**

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to committee members, and no questions relating to the budget reports had been provided either to CSO or The RFO prior to the meeting.
The CSO made reference to the new design of the reports, devised by The RFO to simplify the understanding of reports for committee members.
The Chair, Cllr Townsend Jones highlighted the need for any underspends on committee budgets to be utilised and that options on how to spend budgets will be discussed at July's Meeting when The RFO will be present.

Cllr Townsend Jones also noted that grant applications in relation to Castle Woods and Washinghouse Brook Paths will be considered in July by SCC and that MCC will await the outcome of that application prior to allocating any funding.
Cllr Helen Nelson informed the committee that the proposed siting of a gazebo in Clyne Gardens was being considered by The Planning department of SCC.

No questions were raised at the meeting in relation to the financial reports however The Chair, Cllr Townsend Jones noted that the new 'colour coded' budgeting reports prepared by The RFO were a great improvement, being more straightforward, quicker and easier to understand. All councillors present agreed.
Cllr Helen Nelson left the meeting at 7.04pm returning at 7.08pm, during this period the meeting was suspended as it was not quorate.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 3 April 2024.

**EN2406-06** **Jubilee Gardens Budget**

The Environmental Officer, Lydia Graham reported that progress on Jubilee Gardens had been delayed due to a number of reports including an evaluation budget and ecological report being required, All reports are in hand and a 'blitz' clearing session has been organised with volunteers on 4$^{th}$ July 2024 for the area.

Mumbles Community Council

**EN2406-07** **Mumbles Buzz and Bloom**

Lydia Graham stated that take-up on the competition had been disappointing and how she outlined her efforts to encourage greater public participation through publicity including the display of banners and the use of social media. Lydia was previously actioned to promote the event and a discussion between councillors ensued on how best to achieve greater participation.

The use of posters at local school was considered together information being included with school newsletters. Prizes were discussed with the proposal of a cup for the overall winner suggested.

Cllr Helen Nelson's screen froze between 7.27pm and 7.28pm, during this period the meeting was suspended as it was not quorate.

**ACTION:** Lydia to email Claire Anderson, the events officer with a view to posters being circulated at schools and a request that school newsletters include this agenda item.

**RECOMMENDATION:** that £30 gift vouchers for Cash Hardware be provided to each of the six category winners together with a certificate and that a cup or shield be provided for the overall winner with the cup/shield being engraved with the winner's name. To be presented on an annual basis.

Funding to be provided through Mumbles Buzz and Bloom Budget

**EN2406-08** **The Big Climate Leap Action Plan**

Lydia outlined how Mr Sonny Khan the project manager at Swansea's Environmental Centre had provided a presentation at June's Full Council Meeting. Mr Khan had explained that there were a number of tiers in the process of analysing the impact of the Council's actions, and that the starting point consisted of considering the Council's expenditure. From these initial assessments hotspots would be identified. Lydia stated that there were a number of benefits from Mr Khan's involvement including the highlighting good practice and taking forward's MCC's commitment to the climate emergency.

Mumbles Community Council

**EN2406-09** **Promoting volunteer days**

**EN2406-10** **Summer Mumbles Green Heroes**

**EN2406-11** **Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**
Summary of previous months activity and next steps for Junel.

Lydia Graham, The Environmental Officer had previously arranged for the May Report to be circulated to all committee members.
Lydia provided an update on key aspects of her report but commenced by highlighting the appointment of the new grounds person, Ashley Haynes who has already taken a keen interest in environmental issues and is eager to contribute to projects such as the Jubilee Gardens Development.

In addition to Jubilee Gardens, Lydia also provided updates in relation to the following: -

- Volunteer days which had been limited due to inclement weather and the resignation of the previous ground's person, Martin Russell.
- Oystermouth Litter Pick on 5th May had resulted in a large amount of litter being collected. (June agenda item to consider strategy for reducing litter locally)
- Workplace recycling has made good progress and suitable recycling bins to be provided by SCC for outside The Ostreme Centre.
- Lydia stated that she had facilitated a nature event prior to the meeting at Norton Nature Reserve with Mumbles Cubs who had been very enthusiastic.

**ACTION:** Although indirect approaches have previously been made to Swansea University Students to assist on volunteer days, Lydia to make a direct contact.

**EN2406-12** **Environmental Action Plan 2024/25**

Mumbles Community Council

**EN2406-13** **MCC Website – SA1**

**EN2406-14** **Re-cycling Update, including site visit date to be fixed**

**Meeting concluded at 7.59pm**

**Next Meeting 25th June 2024**